## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth a gweithdrefn Iechyd a Gofal Digidol Cymru ("IGDC"). Mae IGDC yn Awdurdod Iechyd Arbennig sydd wedi ei sefydlu o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 gan Orchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu ac Aelodaeth) 2020.

Yn benodol, mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn darparu'r weithdrefn ar gyfer penodi swydd y cadeirydd, yr is-gadeirydd, y prif swyddog ac aelodau eraill o IGDC (rheoliadau 3, 4 a 5). Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch tymor swydd y penodiadau hynny (rheoliadau 6, 7 ac 8). Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chymhwystra aelodau a'u hanghymhwyso (rheoliadau 9 a 10) ac atal aelodau dros dro a'u diswyddo (rheoliadau 11, 12, 13 a 14).

Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch gweithdrefnau IGDC, gan gynnwys pwerau is-gadeirydd yn absenoldeb y cadeirydd (rheoliad 15) a phenodi pwyllgorau, is-bwyllgorau, cyd-bwyllgorau a chyd-is-bwyllgorau ac arfer swyddogaethau ganddynt (rheoliadau 16 a 17). Mae darpariaeth wedi ei gwneud hefyd mewn perthynas â chynnal cyfarfodydd a thrafodion (rheoliad 18). Mae Rhan 6 yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i IGDC lunio a chadw cyfrifon a llunio adroddiadau a'u rhoi i Weinidogion Cymru (rheoliadau 19 ac 20).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.